# Maen nhw'n fy ngalw i'n sant

**"Maen nhw'n fy ngalw i'n sant,"** meddai'r Parchedig Maria de Carmo Moreira Lima, brodor mewn penodiad cenhadol ar gyfer yr Eglwys Fethodistaidd ym Mrasil. Yna ychwanega, "Er fy mod yn ceisio egluro nad wyf fi ddim, rydw i'n gwneud fy ngorau i'w harwain, gorau galla i, fel petaent yn blant i mi."

'Plant' Maria yw'r bobl ifanc sy'n cael eu cadw mewn tri sefydliad i droseddwyr ifanc yn Belford Roxo yn nhalaith Rio de Janeiro, a Bangu sef cymdogaeth yn Ninas Rio de Janeiro. Ym Mrasil fe gafodd oedran atebolrwydd troseddol ar gyfer rhai troseddau ei ostwng o 18 i 16 yn 2015 ac mae'r gwaith y mae Maria'n ei wneud gyda'r bobl ifanc hyn yn hollbwysig oherwydd mae'n dangos iddynt y cariad a'r gobaith y mae Iesu Grist yn eu cynnig.

Yn aml iawn nid yw'r amgylchedd yn y sefydliadau hyn yn hyrwyddo gwaith ailsefydlu ac adfer ac felly fel rhan o'i gwaith mae Maria yn eiriol dros droseddwyr ifanc i geisio gwell amodau byw ar eu cyfer. Ers y llynedd, mae hi wedi helpu i wella'r deiet y mae'r troseddwyr ifanc yn ei gael, wedi meithrin gwell perthynas rhyngddynt hwy a'u swyddogion ac wedi cefnogi adeiladu canolfan groeso i deuluoedd lle gall mamau a theuluoedd y troseddwyr ifanc gael eu derbyn pan fyddant yn dod i ymweld.

Mae gwrthdaro a thrais rhwng gangiau yn digwydd y tu allan i'r sefydliadau troseddwyr ifanc, gan arwain yn aml at farwolaethau. Yna pan gaiff aelodau gangiau eu gorfodi i gyd-fyw oddi mewn i'r sefydliad, bydd y gwrthdaro hwnnw'n parhau. "Un peth heriol iawn yw datblygu gwaith bugeiliol gyda gwahanol gangiau yn yr un sefydliad," meddai Maria. "Mae'r rhai sy'n gweithio yma yn ofni y bydd y carcharorion yn dreisgar, ond maent wedi dangos parch mawr ataf fi ac wedi ymddwyn yn ardderchog yn yr holl weithgareddau." Mae Duw yn defnyddio Maria i ddisgleirio fel goleuni mewn amgylchedd treisgar a thywyll, gan ddod â thangnefedd, cymod a gobaith.

STORI 1

STORI 2

# Gobaith i'r Arddegau

Rhaglen yw **Gobaith i'r Arddegau** sy'n cael ei rheoli gan yr Eglwys Fethodistaidd yn Ghana.

Sefydlwyd Gobaith i'r Arddegau yn 2012 er mwyn helpu merched ifanc oedd wedi rhoi'r gorau i fynd i'r ysgol oherwydd diffyg arian neu am eu bod wedi beichiogi yn eu harddegau. Drwy gael hyfforddiant galwedigaethol a chymorth gan eu cyfoedion, daw gobaith i'r merched hyn. Byddant yn dysgu sgiliau newydd ac yn cael yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wella eu safon byw a'u disgwyliadau.

Yn ôl y Dr Bunmi Olayisade, Cyd-drefnydd Partneriaeth Perthnasau'r Eglwys Fyd-eang yn Affrica, "Pan es i Accra ym Mawrth 2016, roedd 18 o ferched yn dysgu arlwyo, gwnïo, gwneud mwclis a hetiau a thrin gwallt gan ddilyn cyrsiau Tystysgrif y Sefydliad Hyfforddi Galwedigaethol Cenedlaethol.

"Cyd-drefnydd y Rhaglen sy'n helpu'r merched bregus hyn yw Joanna Akyeampong. Mae hi'n llawn brwdfrydedd. Mae'n dysgu moesau da a disgyblaeth iddynt yn ogystal â sgiliau. Mae'n aelod gweithgar o'r Eglwys Fethodistaidd ac yn cydweithio â hyfforddwyr eraill. Mae'n gobeithio y bydd ambell un o'r myfyrwyr addawol yn dod yn hyfforddwyr eu hunain yn y pen draw, gan ysbrydoli merched eraill sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

"Cefais y fraint o siarad â'r merched a'u hyfforddwyr ac roeddent yn ysbrydoledig ac yn ddiolchgar iawn am y cyfle. Roedd ansawdd y gwaith roeddent yn ei arddangos yn dda iawn ac fe soniodd rhai am gael gyrfa gydag Adran Arlwyo'r Heddlu, sydd yn newyddion da. Roedd un ferch yn awyddus i ddechrau ei busnes teilwriaeth ei hun os byddai ei theulu'n gallu prynu peiriant gwnïo iddi.

"Rwy'n credu y bydd y rhaglen hon yn gymorth mawr i liniaru tlodi a grymuso'r merched. Byddant yn llai tebygol o gael eu hecsbloetio a bydd yr eglwys yn cael mwy a mwy o ddylanwad cadarnhaol wrthi iddi rannu cariad Crist drwy air a gweithred yn y gymdeithas."

# Deialog rhyng-ffydd ym Mhacistan

STORI 3

Stori gan Steve Pearce, Cyd-drefnydd Partneriaeth Perthnasau'r Eglwys Fyd-eang yn Asia a'r Môr Tawel.

Nid yw'n hawdd bod yn Gristion ym Mhacistan. Mae poblogaeth y wlad yn 192 miliwn ac mae 97% yn Fwslimiaid. Mae'n lle anodd i lawer o Fwslimiaid hefyd. Mae pump o Fwslimiaid Sunni am bob un Mwslim Shia, tra mae'r Mwslimiaid Ahmadi yn cyfrif am ddau y cant yn unig o'r boblogaeth – ac yn ôl y gyfraith nid yw'r bobl hynny yn Fwslimiaid o gwbl.

Problem arall yw tlodi ac mae 60% o'r boblogaeth yn byw ar lai na dwy ddoler y dydd. Mae'r rhan fwyaf o ferched yn anllythrennog (tua 55%) ac mae genethod yn parhau i gael llai o gyfle i fynd i'r ysgol na bechgyn.

Mae Islam a Christnogaeth fel ei gilydd yn hyrwyddo heddwch ac eto ym Mhacistan fe welir llawer o drais. Mae'n ymddangos yn aml fod crefydd yn achosi anghytundeb yn hytrach na chytgord, er bod y Coran Sanctaidd yn dysgu "Dy grefydd di i ti a'm crefydd innau i mi" (109:6). Yn yr un modd, mae'r Beibl yn rhoi i ni weledigaeth heddychlon Micha, sy'n dweud y "rhodia pob un o'r cenhedloedd yn enw ei duw" (Micha 4:5).

Mewn sefyllfa fel hon, mae'n rhaid wrth gyd-ddealltwriaeth ac mae'n hanfodol parhau i drafod - mae'n fater o fywyd neu farwolaeth.

Mae Jennifer Jag Jivan yn disgleirio fel seren mewn lle sy'n gallu bod yn dywyll. Mae'n credu'n angerddol mewn cynnal deialog a thrwy gyfrwng ei gwaith yn y Ganolfan Astudio Gristnogol yn Rawalpindi mae'n helpu Mwslimiaid a Christnogion i ddeall ei gilydd ychydig yn well a chael hyd i ffyrdd o fwynhau cwmni ei gilydd ym Mhacistan yn hytrach na bod yn ddig wrth ei gilydd. Mae pob cyfarfyddiad bychan sy'n cael ei alluogi gan y gwaith hwn yn gallu newid llawer o fywydau. Ambell dro, caiff cyfarfyddiad effaith hynod bellgyrhaeddol, fel yn yr achos hwn:

> Cynhaliwyd gweithdy hyfforddi yn ddiweddar, yn para tri diwrnod, ynglyn â chreu heddwch. Roedd dau unigolyn o un o'r sefydliadau Islamaidd mawr yn bresennol yno. Daeth un ohonynt at Jennifer a gofyn iddi roi hyfforddiant ar waith rhyng-ffydd a chreu heddwch i nifer o bobl eraill o'i enwad ef. Mae rhai o'r arweinwyr crefyddol hynny yn gyfrifol am hyd at 200 madrasa – sef ysgolion crefyddol Islamaidd – a channoedd o filoedd o ddilynwyr.

Nid oedd hyn yn beth cwbl ddiogel i Jennifer ei wneud. Ond os byddwch yn disgleirio fel seren, bydd pethau da yn digwydd.